

Y Bil Ffyniant Bro ac Adfywio: Adroddiad ar y Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol diwygiedig ac atodol

Chwefror 2023

Cyflwyniad

1. Gosododd Llywodraeth Cymru Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil gerbron y Senedd ar 28 Medi 2022. Cyfeiriodd y Pwyllgor Busnes y Memorandwm at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar 4 Hydref 2022, a'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad oedd 8 Rhagfyr 2022. Ar 22 Tachwedd, cytunodd y Pwyllgor Busnes i ymestyn y terfyn amser i 16 Chwefror 2023.
2. Gosododd Llywodraeth Cymru Femorandwm diwygiedig ar 25 Tachwedd 2022. Ar 30 Tachwedd 2022, gosododd Llywodraeth Cymru Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol a chytunodd y Pwyllgor Busnes ar ddyddiad terfyn ar gyfer cyflwyno adroddiad ar y Memorandwm diwygiedig a'r Memorandwm Atodol, sef 16 Chwefror 2023. Trafododd y Pwyllgor y Memorandwm diwygiedig a'r Memorandwm Atodol ar 12 Ionawr 2023.

Cefndir

3. Cyflwynwyd y Bil Ffyniant Bro ac Adfywio ("y Bil") yn Nhŷr Cyffredin ar 11 Mai 2022 gan Michael Gove AS. Noddir y Bil gan yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau.



4. Mae'r Bil wedi symud ymlaen ar ei daith drwy Dŷ'r Cyffredin, ac ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae'n symud i'r Cyfnod Pwyllgor yn Nhŷ'r Arglwyddi. Yn sgil Llywodraeth Cymru yn gosod y Memorandwm diwygiedig a'r Memorandwm Atodol, cyhoeddwyd fersiwn wedi'i diweddarau o'r Bil (fel y'i cyflwynwyd o Dŷ'r Cyffredin) ar 19 Rhagfyr 2022.

5. Mae teitl hir y Bil, fel y'i cyflwynwyd, yn nodi diben y Bil:

"A Bill to make provision for the setting of levelling-up missions and reporting on progress in delivering them; about local democracy; about town and country planning; about Community Infrastructure Levy; about the imposition of Infrastructure Levy; about environmental outcome reports for certain consents and plans; about regeneration; about the compulsory purchase of land; about information and records relating to land, the environment or heritage; for the provision for pavement licences to be permanent; about governance of the Royal Institution of Chartered Surveyors; about vagrancy and begging; and for connected purposes."

6. Mae paragraff 1 o'r Nodiadau Esboniadol yn nodi mai amcan Llywodraeth y DU yw'r hyn a ganlyn: *"to reverse geographical disparities between different parts of the United Kingdom by spreading opportunity more equally."*

Trosolwg o'r Bil

7. Pan gyflwynwyd y Bil, roedd ganddo 196 o gymalau ac 17 o atodlenni, ac fe'i rhannwyd yn 11 rhan. Ar ddyddiad trafod y Bil gan y Pwyllgor, mae gan y Bil 199 o gymalau. Oni nodir yn wahanol, mae cyfeiriadau at ddarpariaethau yn y Bil yn yr adroddiad hwn yn cyfeirio at y fersiwn o'r Bil fel y'i cyflwynwyd.

8. Fel y nodwyd ym mharagraff 5 o'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol diwygiedig, mae gan y Bil bedwar amcan trosfwaol:

- i. Gosod dyletswydd ar Lywodraeth y DU i bennu, ac adrodd yn flynyddol ar gynnydd tuag at sicrhau ffyniant bro drwy leihau gwahaniaethau daearyddol ar draws y Deyrnas Unedig;
- ii. Creu fframwaith modern i gefnogi'r broses fwyaf radical a welwyd yn yr oes sydd ohoni i ddatganoli pwerau drwy greu model newydd o awdurdodau sirol cyfun i gefnogi'r gwaith o wireddu cenhadaeth ffyniant bro Llywodraeth y DU, sef, erbyn 2030, y bydd gan bob rhan o

Loegr sydd am gael cytundeb o'r fath, gytundeb datganoli fydd â phwerau ar y lefel uchaf o ddatganoli, neu'n agos at y lefel honno, a setliad ariannu syml a hirdymor;

- iii. Darparu cyfres newydd o bwerau i'r awdurdodau lleol er mwyn iddynt fedru adfywio'u trefi drwy arwerthiannau rhentu ar y stryd fawr, ynghyd â diwygiadau i'r broses prynu gorfodol er mwyn helpu gyda'r gwaith o wireddu cenhadaeth ffyniant bro Llywodraeth y DU, sef, erbyn 2030, y bydd yr ymdeimlad o falchder mewn lle, megis boddhad pobl â chanol eu trefi a'u hymdeimlad o ymgysylltiad â'r diwylliant a'r gymuned leol, yn uwch ym mhob rhan o'r DU, ac y bydd y bwlch rhwng yr ardaloedd sy'n perfformio orau ac ardaloedd eraill yn cau'; a hefyd
- iv. Creu system gynllunio a fydd yn darparu cartrefi mwy prydferth a gwyrddach, ynghyd â'r seilwaith cysylltiedig a'r gefnogaeth ddemocrataidd y mae cymdogaethau'n dymuno'u cael ac yn eu haeddu.

Trafodaeth gan bwylgorau eraill y Senedd

9. Fel y nodwyd uchod, mae'r Memoranda yn ymwneud â'r Bil hwn wedi cael eu cyfeirio at bedwar o Bwyllgorau'r Senedd er mwyn iddynt graffu arnynt. Mae'r Pwyllgor hwn wedi nodi copïau o ohebiaeth rhwng y Gweinidog a Chadeiryddion Pwyllgorau eraill ar faterion sy'n ymwneud â'r Bil, ond yn sgil blaenoriaethau deddfwriaethol eraill, nid yw wedi gallu cynnal gwaith craffu manwl ar y Memorandwm, y Memorandwm diwygiedig na'r Memorandwm Atodol yn ei raglen waith.

10. Mae'r adroddiad hwn yn ymdrin â'r agweddau hynny ar y Bil sy'n dod o fewn cylch gorchwyl 'polisi economaidd' y Pwyllgor hwn, sef, yn bennaf, Rhan 1 o'r Bil (Cenadaethau Ffyniant Bro), ac Adroddiadau am Ganlyniadau Amgylcheddol (Rhan 5), cymalau 116-130. Mae materion yn y Bil sy'n ymwneud â chynllunio a democratiaeth leol yn disgyn yn fwy addas o fewn cylch gwaith Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith a Phwyllgor Llywodraeth Leol a Thai y Senedd, ac felly nid ydynt wedi'u cynnwys yn fanwl yn adroddiad y Pwyllgor hwn.

11. Trafododd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad y Memorandwm a osodwyd ym mis Medi yn ei gyfarfod ar 24 Hydref 2022 ac ysgrifennodd y Cadeirydd at y Gweinidog ar 2 Tachwedd yn mynegi pryder bod y Memorandwm *"yn brin iawn o fanylion angenrheidiol nad ydym yn credu y*

byddai'n galluogi'r Senedd i lunio barn wybodus ar y mater o ran a ddylid rhoi cydsyniad ai peidio."

12. Roedd atodiad i'r llythyr yn cynnwys 20 o gwestiynau yn gofyn am eglurhad ar nifer o faterion ac awgrymwyd y dylid gosod Memorandwm diwygiedig. Mewn ymateb dyddiedig 25 Tachwedd, ymrwymodd y Gweinidog i osod Memorandwm diwygiedig ac aeth i'r afael â'r cwestiynau a godwyd, lle'r oedd modd iddi wneud hynny.

13. Trafododd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai y Memorandwm yn ei gyfarfod ar 27 Hydref 2022 ac ysgrifennodd y Cadeirydd at y Gweinidog ar 1 Tachwedd yn gofyn am ragor o wybodaeth am ddau faes o fewn cylch gwaith y Pwyllgor. Cafwyd ymateb y Gweinidog mewn llythyr dyddiedig 10 Tachwedd, gan roi rhagor o wybodaeth ynglŷn â'r trafodaethau gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig ynglŷn â chymal 187 (Crwydraeth a chardota) ac am oblygiadau ariannol y Bil.

14. Bu'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith yn trafod y Memorandwm cyntaf ar gyfer y Bil hwn yn breifat yn ei gyfarfod ar 9 Tachwedd 2022 hefyd.

15. Ar 16 ac 18 Tachwedd, cyflwynodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig 22 o welliannau i'w hystyried yn ystod cyfnod adrodd Tŷ'r Cyffredin. Ym mharagraff 3 o'i Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol, mae Llywodraeth Cymru yn nodi:

"Roedd dau welliant yn effeithio ar ddarpariaethau yn y Bil fel y'i cyflwynwyd a ddaeth o dan gymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru. Mae trydydd gwelliant gan y Llywodraeth yn gwneud darpariaeth sy'n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru."

Trosolwg o'r darpariaethau y ceisir cydsyniad ar eu cyfer yn y Memorandwm diwygiedig

16. Mae trideg dau o gymalau wedi eu nodi yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol diwygiedig fel rhai sydd "yn arbennig o berthnasol" i faterion o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Nid yw'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol diwygiedig yn egluro ystyr y term "arbennig o berthnasol" ond tybir mai'r rhain yw'r cymalau y mae Llywodraeth Cymru yn ystyried eu bod naill ai'n gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at unrhyw ddiben o fewn

cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd neu sy'n addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

17. Mae'r cymalau wedi eu hamlinellu'n fanwl ym mharagraffau 8 i 42 o'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, ac wedi eu cynnwys yn y Rhannau a ganlyn o'r Bil:

- Rhan 1 (Cenadaethau Ffyniant Bro) cymalau 1 – 6;
- Rhan 3 (Cynllunio), Pennod 1 (Data Cynllunio) cymalau 75-77 a 79-81, a Phennod 4 (Rheoliadau a Gorchmynion o dan y Deddfau Cynllunio) cymal 96 (Pleidleisiau Strydoedd) a Phennod 6 (Darpariaeth Arall) cymal 112 (Rheoliadau a Gorchmynion o dan y Deddfau Cynllunio);
- Rhan 5 (Adroddiadau am Ganlyniadau Amgylcheddol);
- Rhan 10 (Amrywiol), cymal 186 (Adolygiad o lywodraethiant etc Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig) a chymal 187 (Crwydraeth a chardota); a
- Rhan 11 (Cyffredinol), cymal 191 (Pŵer i wneud darpariaeth ganlyniadol).

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol

18. Mae'r Memorandwm Atodol a osodwyd ar 30 Tachwedd yn manylu ar welliannau i'r Bil sydd wedi eu cyflwyno gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig yng Nghyfnod Adrodd Tŷ'r Cyffredin. Nid yw'r gwelliannau hyn yn berthnasol i Rannau 1 na 5 o'r Bil, ac felly nid ydynt yn cael eu trafod yn yr adroddiad hwn.

Barn Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar gydsyniad

19. Mae paragraffau 58 a 59 o'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol diwygiedig yn crynhoi'r meysydd o'r Bil mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig o'r farn eu bod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, sy'n cynnwys mân ddarpariaethau neu ddarpariaethau canlyniadol.

20. Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig o'r farn bod tair elfen o'r Bil yn ymestyn ac yn berthnasol i Gymru sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd:

- Rhan 3 (Cynllunio), Pennod 1 (Data Cynllunio) a Phennod 6 (Darpariaeth Arall) cymal 112 (Rheoliadau a Gorchmynion o dan y Deddfau Cynllunio);
- Rhan 5 (Adroddiadau am Ganlyniadau Amgylcheddol); a

- Rhan 10 (Amrywiol), cymal 186 (Adolygiad o lywodraethiant etc Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig).

21. Mae paragraffau 71 a 1538 o'r Nodiadau Esboniadol, a pharagraff 61 y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol diwygiedig, yn nodi darpariaethau yn y Bil sy'n gymwys yng Nghymru, ond dim ond i ddiwygio deddfwriaeth at ddiben ailddatgan y sefyllfa bresennol yng Nghymru. Nid yw'r Memorandwm diwygiedig yn nodi a yw Llywodraeth Cymru yn fodlon bod y darpariaethau hyn yn cael eu cynnwys yn y Bil hwn, ac nid yw ychwaith yn gwneud unrhyw argymhelliad ynghylch a ddylai'r Senedd gydsynio i'r darpariaethau hyn.

22. Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig o'r farn nad yw Rhan 1 (Cenadaethau Ffyniant Bro) yn ymgysylltu â phroses cydsyniad deddfwriaethol Senedd Cymru.

Cymhwysedd Deddfwriaethol

Ffyniant Bro, (Rhan 1), Cymalau 1-6

23. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn nad yw diben y darpariaethau yn Rhan 1 (Cenhadaeth Ffyniant Bro) yn ymwneud ag unrhyw fater a gadwyd yn ôl o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

24. Mae darpariaethau'r Bil yn sefydlu fframwaith ar gyfer rhoi cenadaethau ffyniant bro ar waith ac nid ydynt yn cynnwys gofynion sylweddol ar gyfer cynnwys cenadaethau o'r fath. Mae paragraff 1.5 o'r atodiad i lythyr y Gweinidog at y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn datgan:

“Mae'r ymgyrchoedd yn disgrifio canlyniadau ysbrydoledig lefel uchel sy'n gysylltiedig â meysydd penodol – addysg, iechyd, trafnidiaeth, cyflogaeth a datblygiad economaidd. ayyb. Meysydd a ystyrir o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.”

25. Mae'r Memorandwm diwygiedig (Paragraff 46) yn nodi sut y mae Gweinidogion Cymru yn “parhau i chwilio am rôl gyd-benderfynu ar gyfer cytuno ar y canlyniadau a sut y dylid gwario arian sy'n cefnogi'r agenda Codi'r Gwastad” i sicrhau “polisi ystyrion ac osgoi dyblygu.” Fodd bynnag, nodir ym Mharagraff 47:

“Byddai'r Bil hwn, pe bai'n cael ei basio fel y cafodd ei gyflwyno, yn ei gwneud yn ofynnol ar i Lywodraethau'r DU yn y dyfodol greu cenhadaeth fwy hirdymor ar draws ystod eang o faterion

datganoledig, a gallai'r camau i'w gwireddu amharu mewn ffordd ymarferol ar amcanion polisi Llywodraeth Cymru."

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

26. Mae Llywodraeth Cymru yn gwneud y pwynt mai gwella llesiant pawb yng Nghymru a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau yw cenhadaeth graidd y Llywodraeth hon, ac mae'n sail i drywydd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Deddf 2015). Ym mharagraff 48, nodir fel a ganlyn:

"Ein barn ni yw y gallai'r Senedd basio darpariaethau cyfatebol i'r rhai a geir yn Rhan 1 a gosod yr un rhwymedigaethau yn union ar Weinidogion Cymru i nodi sut y maent yn bwriadu "lleihau gwahaniaethau daearyddol" o ran cyfleoedd economaidd, cymdeithasol neu eraill ledled Cymru; gyda chefnogaeth yr un rhwymedigaethau adrodd, craffu, adolygu etc. yn union fel y'u nodir yn Rhan 1 o'r Bil. Felly, rydym o'r farn y byddai angen cydsyniad y Senedd ar gyfer Rhan 1 o'r Bil."

27. Mae'r Memorandwm diwygiedig (Paragraff 52) yn mynd ymlaen i dynnu sylw at y canlynol:

"Mae'r darpariaethau yng nghymalau 1-6 y Bil yn cynnwys rhai o'r elfennau y darperir ar eu cyfer eisoes drwy Ddeddf 2015. Mae hyn yn cynnwys adroddiadau, dangosyddion a cherrig milltir blynyddol a gosod amcanion i lunio'r darparu."

28. Yn ôl y Memorandwm diwygiedig, "[n]id mater i Weinidogion Llywodraeth y DU yw gosod targedau ar gyfer y materion hyn yng Nghymru, nac ychwaith adrodd ar gyflawni'r rhain i Senedd y DU."

29. Gofynnodd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad i'r Gweinidog am ragor o wybodaeth am y gwahaniaeth ym marn Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig ynghylch yr angen am gydsyniad, a pha drafodaethau sydd wedi digwydd rhyngddynt. Dywedwyd ym mharagraffau 1.6 a 1.7 o'r ymateb i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad:

"Mae Llywodraeth y DU o'r farn nad oes angen cydsyniad deddfwriaethol Senedd Cymru drwy Gynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar Ran 1 o'r Mesur. Dywed Llywodraeth y DU nad yw Rhan 1 yn addasu cymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru na chymhwysedd deddfwriaethol y

Senedd, ond nad ydynt yn mynd i'r afael ag a yw Rhan 1 yn gwneud darpariaethau 'at unrhyw ddiben o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd' ai peidio. Mae Llywodraeth y DU o'r farn y gall Senedd y DU ddeddfu i osod dyletswyddau ar Weinidogion Llywodraeth y DU i bennu ymgyrchoedd ar gyfer y DU gyfan."

30. Mae'r llythyr hefyd yn nodi bod swyddogion Llywodraeth Cymru wedi cyfarfod â swyddogion o'r Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau, ac y byddant yn parhau â'r gwaith ymgysylltu hwn wrth i'r Bil fynd rhagddo.

31. Yn sgil y dadleuon a nodir yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol diwygiedig, nid yw'r Gweinidog yn argymhell bod y Senedd yn rhoi ei chydsyniad i'r darpariaethau hyn ac ni chefnogir Rhan 1 o'r Bil.

32. Mae'r Pwyllgor yn cytuno â Llywodraeth Cymru bod angen cydsyniad ar gyfer Rhan 1 o'r Bil, gan nad yw'n ymddangos bod diben y darpariaethau hyn yn ymwneud â materion a gadwyd yn ôl i Lywodraeth y Deyrnas Unedig.

Adroddiadau am Ganlyniadau Amgylcheddol (Rhan 5), cymalau 116-130

33. Fel y nodwyd ym Mharagraff 55 o'r Memorandwm diwygiedig, mae Rhan 5 o'r Bil yn disodli system asesu amgylcheddol yr UE gyda fframwaith newydd ar gyfer Adroddiadau am Ganlyniadau Amgylcheddol. Mae'n ymddangos bod yr agwedd hon ar y Bil yn ymwneud â materion sy'n dod o fewn cylch gwaith y Gweinidog Newid Hinsawdd a Phwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith y Senedd, ond hefyd yn ymwneud â deddfwriaeth amgylcheddol sy'n cyffwrdd ag amaethyddiaeth, sydd o fewn cylch gwaith y Pwyllgor hwn. Nodir yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol diwygiedig:

"Mae'r deddfwriaeth asesu amgylcheddol bresennol yn cwmpasu ystod eang o faterion pwnc y mae deddfwriaeth amgylcheddol bresennol yn cyffwrdd â hwy, gan gynnwys cynllunio, trafnidiaeth, dŵr, amaethyddiaeth, draenio tir etc. Mewn sawl un o'r meysydd hyn mae materion datganoledig a materion nad ydynt wedi'u datganoli. Er enghraifft, mae mater a gedwir yn ôl rhif 184 o Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru (cynllunio), er y gellid gwneud darpariaeth mewn perthynas â materion cynllunio a phrosiectau seilwaith eraill sy'n disgyn islaw'r trothwyon ar gyfer prosiectau seilwaith o bwys cenedlaethol (NSIP). Ymhlith y materion perthnasol eraill

a gedwir yn ôl y mae mater 97(olew a nwy) a mater 99 (ynni niwclear). Er gwaethaf materion perthnasol a gedwir yn ôl gellid parhau i wneud darpariaeth arwyddocaol mewn meysydd datganoledig gan gynnwys cynllunio, trafnidiaeth, dŵr, amaethyddiaeth, draenio tir ac eraill. Er bod rhai meysydd sy'n dod o dan y cymalau arfaethedigyn feysydd a gedwir yn ôl, mae Llywodraeth Cymru o'r farn y gellid cynnwys yr un fframwaith i raddau helaeth ar gyfer adroddiadau ar ganlyniadau amgylcheddol mewn Deddf gan y Senedd, ar gyfer y meysydd pwnc hynny sydd o fewn cymhwysedd datganoledig."

34. Nodir ym mharagraff 64 o'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol diwygiedig nad yw'r Gweinidog yn derbyn y darpariaethau mewn perthynas ag adroddiadau am ganlyniadau amgylcheddol. Mae'r Gweinidog yn egluro yn y llythyr dyddiedig 25 Tachwedd, ym mharagraff 14.1, fod trafodaethau wedi eu cynnal rhwng ei swyddogion a'u cymheiriaid yn Llywodraeth y Deyrnas Unedig mewn perthynas â'r Rhan hon.

35. Mae paragraff 7.2 y llythyr hwnnw yn egluro bod diddymu Deddf Cymunedau Ewropeaidd 1972 yn golygu nad oes gan Weinidogion Cymru bwerau rheoleiddio erbyn hyn o ran asesu amgylcheddol strategol ac asesu effaith amgylcheddol. Yr eithriad i hyn yw'r pŵer yn adran 71A o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, fodd bynnag bydd cymal 128(2) o'r Bil hwn yn diddymu'r adran honno. Daw'r Gweinidog i'r casgliad ym mharagraff 7.3 nad ydynt felly'n gallu gwella gweithrediad y cyfundrefnau hyn, a byddai perygl o hyd bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn gwneud rheoliadau sy'n effeithio ar Gymru sy'n tanseilio'r dull gweithredu presennol.

36. Ym mharagraff 8.1 y llythyr dywed y Gweinidog ei bod hi o'r farn y dylai Gweinidogion Cymru gael bwerau cyfatebol i wneud rheoliadau mewn cysylltiad ag adroddiadau am ganlyniadau amgylcheddol ar gyfer cynlluniau a phrosiectau datganoledig.

37. Dywed y Gweinidog, ym mharagraff 16.1 o'r llythyr dyddiedig 25 Tachwedd, ei bod hi'n argymhell bod cydsyniad yn cael ei ddal yn ôl ar gyfer y darpariaethau yn Rhan 5. Nodir yng nghasgliad y Memorandwm diwygiedig:

"Ni allaf gefnogi'r trywydd yn Rhan 5 oherwydd y risg y gall rheoliadau sy'n effeithio ar Gymru danseilio'r hyn a wneir ar hyn

o bryd yn y meysydd hyn, sydd wedi'u teilwra'n benodol i amgylchiadau ac anghenion Cymru."

38. Mae'r Pwyllgor yn cytuno bod angen cydsyniad y Senedd mewn perthynas â chymalau 116-130 o'r Bil fel y'i cyflwynwyd.

Pwerau dirprwyedig

39. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod y Bil hefyd yn cynnwys darpariaethau ar gyfer pwerau datganoledig yn Rhan 5 o'r Bil – Adroddiadau am Ganlyniadau Amgylcheddol – yng Nghymalau 121 a 129.

Goblygiadau ariannol

40. Mae paragraff 68 o'r Memorandwm diwygiedig yn nodi dadansoddiad Llywodraeth Cymru o oblygiadau ariannol Cymalau 1-6 y Bil hwn i Gymru:

"Effaith y darpariaethau yw gosod dyletswydd ar Lywodraeth y DU i osod, ac adrodd yn flynyddol ar y cynnydd tuag at gyflawni cenadaethau ffyniant bro i leihau anghyfartaledd daearyddol ar draws y Deyrnas Unedig. Mae'r gofyniad i adrodd ar gyflawni cenadaethau ffyniant bro, a chraffu gan Senedd y DU ar gynnydd i gyflawni'r cenadaethau hyn yn gost i Lywodraeth y DU ac ni fydd yn cael unrhyw effaith ar Gymru. Mae effaith gweithredoedd Llywodraeth y DU i gyflawni ffyniant bro y tu allan i gwmpas y Bil."

Safbwynt y Pwyllgor

Casgliad 1. Mae'r Pwyllgor wedi nodi safbwynt Llywodraeth Cymru mewn perthynas â Rhannau 1 a 5 o'r Bil, fel y nodwyd yn y Memorandwm diwygiedig, ac yn cytuno bod angen cydsyniad y Senedd mewn perthynas â Rhan 1 a Rhan 5 o'r Bil fel y'i cyflwynwyd.

Casgliad 2. Fel y nodwyd ym mharagraff 9 uchod, yn sgil blaenoriaethau deddfwriaethol eraill, nid yw'r Pwyllgor wedi gallu cynnal gwaith craffu manwl ar oblygiadau darpariaethau'r Bil hwn ar gyfer Cymru. Felly nid yw mewn sefyllfa i argymhell a ddylai'r Senedd dderbyn ynteu wrthod Cynnig/Cynigion Cydsyniad Deddfwriaethol sy'n gysylltiedig â'r Memoranda diwygiedig ac Atodol.